# Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

## Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 15fed o Chwefror 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Arwel Pierce, Bethan Lawton, Alan H. Jones

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Ni fu i'r un cynghorydd ddatgan buddiant

3. Derbyn cofnodion 18 Ionawr 2021:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Datganiadau Cyfrifyddu 2019/2020:

Bu i'r Cyngor edrych yn fanwl ar gynnwys adroddiad yr Archwiliwr Mewnol a manylion y cyfrifon.

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiadau Cyfrifyddu 2019/2020.

5. Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2019/2020:

**PENDERFYNIAD:** I gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1 a Rhan 2) 2019/2020, gan nodi nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio oherwydd Coronafirws. Nodwyd nad yw'r cofnodion yn cael eu llofnodi yn ffurfiol, ond yn cael eu derbyn yn ffurfiol mewn cyfarfod.

6. Cais Ariannol - Cerebra Palsy Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater tan cyfarfod mis Mawrth 2021.

7. Cais Ariannol - Tŷ Gobaith:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater tan cyfarfod mis Mawrth 2021.

8. Cais Ariannol - Elusen Ambiwlans Awyr Cymru:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater tan cyfarfod mis Mawrth 2021.

9. Cais Ariannol - Radio Ysbyty Gwynedd:

**PENDERFYNIAD:** I ohirio'r mater tan cyfarfod mis Mawrth 2021.

10. Zurich - Yswiriant:

Yr oedd e-bost wedi ei dderbyn gan y cwmni yn cynnig pris gostyngedig os yn ymrwymo am 3 neu 5 blynedd, yn hytrach nag blwyddyn.

**PENDERFYNIAD:** I ymrwymo am gytundeb 5 blwyddyn er mwyn derbyn y disgownt a lleihau'r costau i'r trethdalwr.

11. Cyfrifon i'w talu:

| | | | |
|---|---|---|---|
| B Gwilym | Cyflog | 101724 | £188.52 |
| Cyllid a Thollau EM | YG | 101725 | £47.20 |
| Cyngor Gwynedd | Pafiliwn | 101726 | £775.75 |
| Cyngor Gwynedd | Archwilio Cyfrifon | 101727 | £192.00 |
| Cyng B Lawton | Offer chwarae | 101728 | £47.45 |

**PENDERFYNIAD:** I dalu'r anfonebau uchod.
I wneud ymholiadau gydag Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd, er mwyn cyflwyno cais am arian o'r gronfa caledi, gan nad yw'r cyngor wedi medru gosod y Pafiliwn yn sgil y pandemig Coronafirws.

12. Cyngor Tref Nefyn - Rheoli'r Farchnad dai gwyliau:

**PENDERFYNIAD:** I anfon llythyr at Julie James ASC gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd gan Gyngor Tref Nefyn.

13. Dolithel - llifogydd:

Cafwyd adroddiad llafar gan gynghorydd ynglŷn a'r sefyllfa yn Nolithel. Cafwyd wybod bod perchennog tŷ mewn trafodaeth gyda Chyngor Gwynedd, gan geisio cael gwybod os mai o'r afon neu'r ffordd y daw y dŵr i'w eiddo.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

14. Morris & Bates Cyfreithwyr - Elusen Dolgoch:

Yr oedd llythyr wedi ei dderbyn gan Morris & Bates yn egluro nad oedd y cwmni mewn sefyllfa i ddarparu cyngor. Bu i Morris & Bates argymell ddau gwmni yng Nghaerdydd sydd gydag arbenigedd yn y maes elusennau.

Adroddwyd bod y Clerc wedi gofyn am gyngor gan gwmni Geldards LLP, ac 'roedd adroddiad wedi ei ddarparu gan y cwmni yn amlinellu y camau y dylai'r cyngor ei ddilyn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.
Y Clerc i ddilyn y camau, sef i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd a'r Comisiwn Elusennau yn y lle cyntaf.
Y Clerc i ofyn wrth Geldards am amcan bris o'r gwaith.

15. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Eglwys Sant Fathew:

Adroddwyd bod perchennog yr adeilad wedi bod yn yr adeilad am bythefnos, gyda swyddogion yr Heddlu wedi eu galw. Dywedwyd bod gan y perchenogion resymau dilys dros fod yn yr adeilad yn ystod rheolau teithio Coronafirws.

Adroddwyd bod unigolyn hefyd yn byw mewn sied o fewn terfyn yr adeilad, a bod toiled compost yno.

**PENDERFYNIAD:** I ofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri anfon swyddog draw, gan egluro bod treth yn daladwy ar yr adeilad os yw'r adeilad yn cael defnydd fel adeilad domestig.

16. Cyngor Gwynedd - Adran Amgylchedd - Gwaharddiad Traffig - B4405:

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

17. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:
-Rylock nuts ar gyfer y siglen newydd wedi cyrraedd
-Matiau diogelwch a glud wedi eu harchebu

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

18. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cynghorydd Sir:
-Wedi mynychu cyfarfod o gyngor Coleg Meirion-Dwyfor, safle Dolgellau. Cafwyd wybod y bydd buddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn codi safon yr adeilad. Cafwyd hefyd adroddiad am brofiad dysgwyr/myfyrwyr o ymdopi a dilyn eu cyrsiau ar-lein.
-Cyngor Gwynedd yn paratoi polisi tai newydd, sydd yn cael ei greu gan adran newydd, sef Adran Tai ac Eiddo.

-Cyngor Gwynedd yn chwilio am dir yn Nhywyn er mwyn adeiladu tai gofal ychwanegol, gan hefyd edrych ar brynu rhai o dai cyngor sydd wedi eu gwerthu yn ôl i fod yn dai cyngor. Edrych hefyd ar fenthyg arian er mwyn prynu tai i'w rhentu.
-Yn ward Bryncrug a Llanfihangel, 82 eiddo syd yn talu premiwm ar trethi domestig, 29 uned hunan ddarpar, a 8 annedd sydd yn wag hirdymor.
-Gwaith ar Pont-ar-Ddyfi i gychwyn o fewn pythefnos.
-Treth cyngor yn debygol o godi 3.7%.
-Twll archwilio (manhole) wedi codi ar balmant ger y toiled yn y pentref, Cyngor Gwynedd ddim wedi ymateb o fewn 24 awr.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

19. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Adroddwyd bod gwr ger Harlech yn rhedeg canolfannau trwsio offer mewn rhai llefydd, ac yn bwriadu defnyddio yr adeilad yng ngorsaf rheilffordd Tywyn.

Cafwyd wybod bod sied trwsio eisoes yn Llanegryn.

**PENDERFYNIAD:** I dderbyn y wybodaeth.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 7:55pm

Llofnod y Cadeirydd ..........................................................